Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2023 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3961A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o’r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai’r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi’r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Archwilio Cymru swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

Dull corfforaethol o gynllunio 10

Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd 13

Systemau sicrwydd corfforaethol 21

Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol 26

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 30

Atodiad 2 – Cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol 33

Atodiad 3 – Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio 37

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig 2023 yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi'i gynllunio er mwyn helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol er mwyn sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Caiff ein hadolygiad o ddull corfforedig y Bwrdd Iechyd o bennu amcanion llesiant newydd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ei gynnal er mwyn helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2 Cynhaliwyd ein gwaith Asesu Strwythuredig 2023 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i etifeddiaeth pandemig COVID-19 wrth iddynt geisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i'r galw ychwanegol yn y system sydd wedi cronni yn ystod y pandemig. Ar ben hynny, mae cyrff iechyd hefyd yn delio â set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Yn fwy nag erioed, felly, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau gael trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, diogel ac ymatebol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd, gyda ffocws penodol ar y canlynol:

- Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd
- Systemau sicrwydd corfforaethol
- Dull corfforaethol o gynllunio
- Dull corfforaethol o reoli arian

Nid ydym wedi adolygu trefniadau gweithredol y Bwrdd Iechyd fel rhan o'r gwaith hwn.

4 Mae ein gwaith wedi cael ei lywio gan ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol, sydd wedi'i ddatblygu a'i fireinio dros nifer o flynyddoedd. Mae hefyd wedi'i lywio gan:

- Model Reolau Sefydlog, Cadw a Dirprwyo pwerau
- Model Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru
- Y Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru (Ail Argraffiad)
- Canllawiau arfer da perthnasol eraill

Gwnaethom ein gwaith rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'u crynhoi yn **Atodiad 1**.

5 Rydym hefyd yn darparu diweddariad yn yr adroddiad hwn ar gynnydd y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael ag argymhellion heb eu cyflawni a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol yn **Atodiad 2**.

# Canfyddiadau allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau effeithiol er mwyn sicrhau trefniadau llywodraethu da a'i fod wedi mabwysiadu strategaeth hirdymor ddiwygiedig. Mae cyfleoedd ar gael i wella rhai trefniadau, cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol diwygiedig y sefydliad, a mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd.**

## Dull corfforaethol o gynllunio

7 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i ddiwygio ei weledigaeth hirdymor a'i amcanion llesiant/strategol. Yn yr un modd â byrddau iechyd eraill, nid yw wedi gallu cynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) y gellir ei gymeradwyo ac mae'n gweithio i Gynllun Blynyddol Integredig yn lle hynny. Mae ei ddull o oruchwylio'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau yn aeddfedu, ond gellid cryfhau adroddiadau i roi mwy o sicrwydd i'r Bwrdd bod camau gweithredu'n cyflawni'r buddion a'r canlyniadau a fwriedir**.

8 Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynhyrchu, goruchwylio a chraffu ar ddatblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn gadarn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i ddiwygio ei strategaeth hirdymor ac wedi mabwysiadu gweledigaeth hirdymor ac amcanion strategol newydd. Fodd bynnag, fel byrddau iechyd eraill yng Nghymru, nid yw wedi gallu llunio CTCI cymeradwy ar gyfer 2023-2026 oherwydd ei sefyllfa ariannol heriol, ac mae'n gweithio i Gynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24 yn lle hynny.

9 Mae amcanion strategol newydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn amcanion llesiant fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er bod yr amcanion llesiant wedi'u tanategu gan flaenoriaethau clir, nid ydynt yn cwmpasu pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy. At hynny, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cysoni ei amcanion â'r nodau llesiant cenedlaethol nac ag amcanion llesiant sefydliadau partner.

10 Mae strategaethau a chynlluniau corfforaethol allweddol, fel y strategaeth hirdymor a Chynllun Blynyddol 2023-24, yn cynnwys amcanion a blaenoriaethau strategol clir, a cherrig milltir, targedau a chanlyniadau CAMPUS. Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd drefniadau da ar waith er mwyn galluogi'r Bwrdd i oruchwylio a chraffu ar y gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol allweddol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gael i wella adroddiadau er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch cyflawni'r buddion a'r canlyniadau a fwriedir.

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd

11 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithredu'n effeithiol, ac yn parhau i ganolbwyntio'n dda ar dryloywder cyhoeddus, trefniadau llywodraethu da, a gwella'n barhaus. Ceir cyfleoedd o hyd i wella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd ymhellach yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd y strwythur pwyllgorau newydd.**

12 Mae'r Bwrdd yn parhau i sicrhau bod trefniadau da ar waith i gynnal ei fusnes yn dryloyw, ond mae cyfleoedd o hyd i wella hygyrchedd cyhoeddus cyfarfodydd y Bwrdd a diweddaru dogfennau sy'n ymwneud â llywodraethu ar ei wefan. Er bod trefniadau'n parhau i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd yn effeithiol, mae'r ôl-groniad sylweddol o bolisïau sydd wedi dyddio yn peri risg bosibl o dorri gofynion rheoliadol a statudol.

13 Ymddengys fod strwythur pwyllgorau newydd y Bwrdd Iechyd yn ymsefydlu'n dda, ond mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar ei effeithiolrwydd cyffredinol. O ystyried lansio'r strategaeth ddiwygiedig, mae cyfle i adolygu'r strwythur pwyllgorau newydd, fel rhan o adolygiad effeithiolrwydd Bwrdd a phwyllgorau 2023-24, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu yn ôl y bwriad ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion strategol newydd. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i gael papurau yn amserol, wedi'u hysgrifennu'n dda, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella eu cynnwys a'u hansawdd ymhellach. Mae gan y Bwrdd Iechyd Fwrdd sefydlog a phrofiadol o hyd. Er bod rhai swyddi gwag ar gyfer Aelodau Annibynnol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i sicrhau bod cworwm ar y pwyllgorau o hyd tra bod y broses recriwtio yn mynd rhagddi. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar wella'n barhaus. Mae hefyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i glywed gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ond mae cyfleoedd i wneud mwy o ddefnydd o straeon cleifion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

14 **Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal systemau sicrwydd corfforaethol da,** canfuom fod **cyfleoedd i wella trefniadau rheoli risg gweithredol, adrodd ar berfformiad, a goruchwylio'r broses o olrhain argymhellion.**

15 Mae'r Bwrdd yn parhau i sicrhau bod trefniadau da ar waith ar gyfer goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol, ac mae wedi diweddaru ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd i gysoni risgiau ag amcanion strategol, blaenoriaethau a ffrydiau gwaith diwygiedig y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i wella trefniadau rheoli risg gweithredol. Mae'r Bwrdd darparu trosolwg da o berfformiad sefydliadol yn dda, ond canfuom gyfleoedd i gryfhau'r Adroddiad Perfformiad Integredig gwell yn ogystal ag adolygu'r Fframwaith Rheoli Perfformiad er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion strategol diwygiedig. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau newydd o ran ansawdd a gonestrwydd, ac mae'n gwella ei ddull cyffredinol o

oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cryf ar gyfer olrhain argymhellion archwilio ac adolygu, mae cyfleoedd ar gael i wella'r trefniadau hyn ymhellach i gefnogi dysgu a gwella.

### Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

16 **Er gwaethaf prosesau clir ar gyfer cynllunio, rheoli a monitro ariannol,** canfuom fod **sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24 yn heriol.**

17 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau a'i amcanion ariannol ar gyfer 2022-23, ac mae'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2023-24 yn parhau i fod yn heriol. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull da o gynllunio ariannol, ac mae wedi gosod targed arbedion uchelgeisiau gyda ffocws clir ar wella ansawdd a chyflawni cynaliadwyedd ariannol. Mae trefniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol a rheolaethau wedi'u cryfhau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer goruchwylio a chraffu ar berfformiad ariannol, gydag adroddiadau ariannol clir sy'n agored am heriau a risgiau ariannol.

## Argymhellion

18 Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r argymhellion sy'n codi o'n gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys amserlenni a'n hasesiad blaenoriaeth. Crynhoir ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: argymhellion 2023**

| Argymhellion |
| --- |
| **Amcanion Llesiant**<br>A1 Er bod amcanion llesiant newydd y Bwrdd Iechyd wedi'u tanategu gan flaenoriaethau clir, nid ydynt yn cwmpasu pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy. At hynny, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cysoni ei amcanion â'r nodau llesiant cenedlaethol nac ag amcanion llesiant sefydliadau partner. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) ystyried ymgorffori blaenoriaethau ychwanegol sy'n cwmpasu pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r amgylchedd;<br>b) nodi sut mae pob amcan llesiant unigol yn cyd-fynd â'r amcanion llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant ei bartneriaid. |

**Argymhellion**

**Mynediad at gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd**

A2 Er mwyn gwella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd, dylai'r Bwrdd Iechyd wella mynediad y cyhoedd i gyfarfodydd y Bwrdd drwy:

- ffrydio cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn fyw a'i recordio;
- sicrhau bod y recordiadau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd yn fuan ar ôl pob cyfarfod.

**Mynediad cyhoeddus i ddogfennau llywodraethu**

A3 Canfuwyd nifer o ddogfennau llywodraethu sydd wedi dyddio neu rai nad oeddent ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd, er enghraifft, Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei wefan, gan sicrhau bod y fersiynau diweddaraf o ddogfennau a phapurau llywodraethu ar gael.

**Adolygu effeithiolrwydd ei strwythur pwyllgorau newydd**

A4 Fel rhan o'i adolygiad o effeithiolrwydd Bwrdd a phwyllgorau 2023-24, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu effeithiolrwydd ei strwythur pwyllgorau newydd. Dylai'r adolygiad roi sylw arbennig i'r canlynol:

- a yw'r strwythur pwyllgorau yn cefnogi trefniadau goruchwylio digonol o'r amcanion strategol diwygiedig;
- a yw cylch gorchwyl a chynlluniau gwaith pwyllgorau'n ymdrin yn ddigonol â phob agwedd ar fusnes y Bwrdd;
- a oes rhinwedd mewn cynnal cyfarfod rheolaidd ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau;
- a oes hyfforddiant a datblygiad priodol ar gyfer cadeiryddion newydd pwyllgorau ac aelodau newydd o bwyllgorau;
- a oes gan swyddogion ac Aelodau'r gallu a'r adnoddau i gefnogi cyfarfodydd pwyllgorau'n amlach.

**Clywed straeon gan gleifion**

A5 Nid yw'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn derbyn straeon gan gleifion ar hyn o bryd. Dylai'r pwyllgor ddechrau pob cyfarfod arall gyda stori gan glaf i osod y naws ar gyfer gweddill y cyfarfod yn ddefnyddiol, ac er mwyn sicrhau bod aelodau'n clywed am brofiadau cleifion a gwersi cysylltiedig.

**Argymhellion**

**Gwella adroddiadau perfformiad**

A6 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei Adroddiad Perfformiad Integredig (API). Er ein bod yn cydnabod ei fod yn adroddiad newydd sy'n datblygu, rydym wedi gweld potensial i'w wella drwy:

- atgyfnerthu ei gysylltiadau ag Adroddiad Cyflawni'r Cynllun Blynyddol er mwyn sicrhau bod y berthynas rhwng rhai o'r cerrig milltir cyflawni a'r dangosyddion perfformiad allweddol yn gliriach;
- canolbwyntio'n fwy cyson ar y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â thanberfformiad yn yr API a'i adroddiad eglurhaol;
- bod yn gliriach ynghylch a yw'r metrigau yn adran dau o'r API yn cyrraedd y targed ai peidio;
- bod yn gyson wrth roi rhesymau pam nad yw siartiau data ar gael yn adran dau o'r API, yn hytrach na gadael yr adran yn wag;
- darparu data meincnodi (lle mae ar gael) i ddangos sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cymharu â chyrff iechyd eraill.

**Gwella'r dull o olrhain argymhellion**

A7 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau olrhain argymhellion da ond mae cyfleoedd i'w gwella ymhellach i gefnogi dysgu a gwelliant. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

a) cyfeirio argymhellion a/neu adroddiadau archwilio ac adolygu yn ffurfiol i bwyllgorau perthnasol ar gyfer craffu manylach, gyda'r pwyllgorau'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd am sicrwydd, a
b) datblygu adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd sy'n dwyn ynghyd themâu, materion cyffredin a'r hyn a ddysgwyd o'r adroddiadau cydymffurfio mewnol, allanol a rheoleiddiol.

# Adroddiad manwl

## Dull corfforaethol o gynllunio

19 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau corfforaethol a goruchwylio'r broses o'u cyflawni.

20 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i ddiwygio ei weledigaeth hirdymor a'i amcanion llesiant/strategol. Yn yr un modd â byrddau iechyd eraill, nid yw wedi gallu cynhyrchu CTCI y gellir ei gymeradwyo ac mae'n gweithio i Gynllun Blynyddol Integredig yn lle hynny. Mae ei ddull o oruchwylio'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau yn aeddfedu, ond gellid cryfhau adroddiadau i roi mwy o sicrwydd i'r Bwrdd bod camau gweithredu'n cyflawni'r buddion a'r canlyniadau a fwriedir**.

### Dull corfforaethol o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau

21 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gynhyrchu, goruchwylio a chraffu ar ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Gwnaethom chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- gweledigaeth glir a gymeradwywyd gan y Bwrdd a strategaeth hirdymor ar waith sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, wedi'u gwreiddio yn iechyd y boblogaeth, ac wedi'u llywio gan ddadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
- strategaeth glinigol hirdymor briodol a gymeradwyir gan y Bwrdd;
- trefniadau corfforaethol priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer datblygu a chynhyrchu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI), a chynlluniau corfforaethol eraill;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar y CTCI a chynlluniau corfforaethol eraill cyn eu cymeradwyo.

22 Canfuom fod **trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynhyrchu, goruchwylio a chraffu ar ddatblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn gadarn. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gael i ehangu cwmpas amcanion llesiant y Bwrdd Iechyd a'u halinio â'r nodau llesiant cenedlaethol yn ogystal ag amcanion llesiant ei bartneriaid.**

23 Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir a fynegir yn ei strategaeth hirdymor ddiwygiedig, Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol (2023-2035). Mae'r weledigaeth yn gryno, yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac yn rhoi pwyslais clir ar ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel, cydweithio, atal, a lleihau anghydraddoldebau iechyd i wella canlyniadau. Ategir y weledigaeth gan bedwar amcan strategol newydd – rhoi pobl yn gyntaf; darparu ansawdd rhagorol; cyflawni yn y mannau iawn; a gweithredu dros y dyfodol. Mae'r amcanion strategol hefyd yn amcanion llesiant y Bwrdd Iechyd (rydym yn trafod hyn ymhellach ym **mharagraff 27**). Mae'r strategaeth ddiwygiedig, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis

Gorffennaf 2023, yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o anghenion iechyd y boblogaeth o amrywiaeth o ffynonellau[1].

24 Ymgysylltodd y Bwrdd Iechyd yn effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid mewnol ac allanol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i gefnogi eu cyfranogiad wrth lunio pob agwedd ar y strategaeth. Gweithiodd yn arbennig o dda gyda sefydliadau cymunedol a thrydydd sector i ymgysylltu â 'grwpiau nas clywir ganddynt yn aml'[2]. Rhoddodd adolygiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ddull y Bwrdd Iechyd o ymgysylltu â rhanddeiliaid sgôr sicrwydd sylweddol.

25 Goruchwyliwyd y gwaith o ddiwygio'r strategaeth gan Grŵp Llywio a sefydlwyd gan y Bwrdd, ac a gydlynwyd gan grŵp trawsadrannol, a sicrhaodd fewnbwn priodol gan Fyrddau Clinigol a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol. Roedd trefniadau priodol ar lefel Bwrdd i oruchwylio datblygiad y strategaeth a chynnwys Aelodau Annibynnol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu adolygu ac adlinio ei raglenni strategol, gan gynnwys y Rhaglen Gwasanaethau Clinigol Llunio Ein Dyfodol, â'r strategaeth hirdymor ddiwygiedig.

26 Yn yr un modd â byrddau iechyd eraill, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu llunio CTCI a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023-2026 oherwydd ei ddiffyg ariannol arfaethedig yn 2023-24. Yn lle hynny, mae wedi cynhyrchu Cynllun Integredig Blynyddol ar gyfer 2023-24, sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni ei flaenoriaethau allweddol ochr yn ochr â rhaglen gwella costau i gyflawni cydbwysedd ariannol dros y tymor canolig. Mabwysiadodd y Bwrdd Iechyd ddull o'r gwaelod i fyny, gan ddatblygu ei Gynllun Integredig Blynyddol drwy'r Byrddau Clinigol a'r Adrannau Corfforaethol drwy'r Grŵp Datblygu a Chyflawni Strategaeth. Cafodd y blaenoriaethau cyflawni, uchelgeisiau perfformiad, a rhaglenni gwella costau eu hystyried gan yr Uwch Fwrdd Arwain cyn iddynt gael eu cynnwys yn y cynllun i'w cymeradwyo gan y Bwrdd. Roedd y Bwrdd a phwyllgorau perthnasol yn ymwneud yn llawn â datblygiad y cynllun, gydag Aelodau Annibynnol yn darparu gwaith craffu, her a mewnbwn da, yn enwedig mewn perthynas â'r blaenoriaethau a'r opsiynau ariannol. Cymeradwywyd y Cynllun Integredig Blynyddol gan y Bwrdd ar 30 Mawrth 2023, a chyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2023. Diweddarwyd elfennau o'r cynllun yn dilyn adborth gan Lywodraeth Cymru, a chymeradwywyd y newidiadau gan y Bwrdd ar 25 Mai 2023, cyn eu hailgyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 31 Mai 2023.

27 Fel y nodwyd ym **mharagraff 23**, mae amcanion strategol newydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn amcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Lluniwyd yr amcanion strategol/amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor

[1] Mae'r ffynonellau'n cynnwys yr asesiadau llesiant a gwblhawyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg, dadansoddiad o gyfleoedd, heriau, risgiau, a barn rhanddeiliaid.

[2] Pobl heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n defnyddio neu a allai ddefnyddio gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ac sy'n llai tebygol o gael eu clywed gan weithwyr proffesiynol gwasanaethau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

datblygu cynaliadwy. Cawsant eu datblygu a'u cytuno gan y Bwrdd yn dilyn dadansoddiad manwl o anghenion iechyd y boblogaeth, cyfleoedd, heriau, risgiau, ac ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Mae'r amcanion strategol/amcanion llesiant yn drawsbynciol, yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac wedi'u tanategu gan y pum ffordd o weithio. Mae set glir o flaenoriaethau yn cyd-fynd â phob amcan strategol/amcan llesiant. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i ehangu'r blaenoriaethau o dan bob amcan strategol/amcan llesiant, i gwmpasu pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy. Er enghraifft, nid oes unrhyw flaenoriaethau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth neu addasu i'r hinsawdd, er eu bod yn amlwg yn berthnasol i'r Bwrdd Iechyd **(Argymhelliad 1a)**. Mae'r strategaeth hirdymor yn cyfeirio'n briodol at y saith nod llesiant cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi dangos yn glir sut mae ei amcanion strategol/amcanion llesiant yn cyd-fynd â nhw. At hynny, nid yw'n glir ychwaith sut mae amcanion strategol/amcanion llesiant y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd ag amcanion llesiant ei bartneriaid **(Argymhelliad 1b)**.

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau

28 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar weithredu a chyflawni cynlluniau corfforaethol. Gwnaethom chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- cynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y CTCI, sy'n cynnwys blaenoriaethau/amcanion strategol clir a cherrig milltir CAMPUS[3], targedau, a chanlyniadau sy'n cynorthwyo monitro ac adrodd;
- y Bwrdd yn monitro gweithrediad a chyflwyniad cynlluniau corfforaethol yn briodol, gan gynnwys y CTCI.

29 Canfuom fod **strategaethau a chynlluniau corfforaethol allweddol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys amcanion a blaenoriaethau strategol clir, a cherrig milltir, targedau a chanlyniadau cyflawni CAMPUS. Mae ganddo drefniadau da ar waith er mwyn galluogi'r Bwrdd i oruchwylio a chraffu ar y gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol allweddol. Fodd bynnag, gellid cryfhau adroddiadau i roi mwy o sicrwydd ynghylch cyflawni'r buddion a'r canlyniadau a fwriedir.**

30 Mae blaenoriaethau strategol clir yn cyd-fynd ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod cerrig milltir cyflawni lefel uchel ar gyfer pob blaenoriaeth sy'n benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn berthnasol ac yn amser-gyfyngedig. Fodd bynnag, nid oes ganddo linell sylfaen i gynorthwyo monitro. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu datblygu cyfres o ddangosyddion allweddol er mwyn galluogi'r Bwrdd i fesur a monitro cynnydd y sefydliad o ran cyflawni ei amcanion a'i flaenoriaethau strategol.

[3] Penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, perthnasol, ac amser-gyfyngedig.

31 Mae Cynllun Integredig Blynyddol 2023-24 hefyd yn cynnwys blaenoriaethau clir sy’n cyd-fynd ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Mae’r cynllun yn nodi’n glir nod y Bwrdd Iechyd ar gyfer pob maes blaenoriaeth, ac mae pob nod yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae meysydd ffocws clir ar gyfer pob blaenoriaeth, ynghyd â set fanwl o gamau gweithredu. Mae’r Cynllun Blynyddol hefyd yn cynnwys y meysydd ffocws allweddol a chamau gweithredu o Gynllun Seilwaith y Bwrdd Iechyd; Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio; a Chynllun Pobl a Diwylliant. Ceir adran fanwl sy’n amlinellu sut y caiff llwyddiant ei fesur, gyda cherrig milltir cyflawni allweddol a chamau gweithredu wedi’u dadansoddi fesul chwarter i gynorthwyo’r gwaith o fonitro ac adrodd (gweler **Atodiad 2 2021 A2a**). Gallai’r Bwrdd Iechyd wella’r trefniadau hyn ymhellach drwy nodi’n gliriach pa Gyfarwyddwr Gweithredol sy’n gyfrifol am gyflawni a pha bwyllgor sy’n gyfrifol am oruchwylio.

32 Mae dull y Bwrdd Iechyd o oruchwylio’r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn parhau i aeddfedu. Yn ystod 2022-23, roedd yr adroddiadau chwarterol a gyflwynwyd i’r Bwrdd yn rhoi trosolwg da o’r targedau a gyflawnwyd yn ystod y chwarter, y risgiau a’r mesurau lliniaru i gyflawni, a’r targedau ar gyfer y chwarter nesaf. Roedd adroddiad chwarter pedwar hefyd yn rhoi trosolwg da o’r cyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn (gweler **Atodiad 2 2021 A2b**).

33 Mae fformat yr adroddiad chwarterol diwygiedig ar gyfer 2023-24. Mae’r adroddiad a gyflwynwyd i’r Bwrdd ym mis Medi 2023 yn rhoi trosolwg da o statws y cerrig milltir cyflawni chwarter un fel y nodir yn y Cynllun Integredig Blynyddol 2023-24. Ar gyfer cerrig milltir sydd heb eu cyflawni yn unol â’r cynllun, rhoddir rheswm clir yn ogystal â manylion pa gam(au) a gymerir i roi’r garreg filltir yn ôl ar y trywydd cywir yn ystod y chwarter nesaf ynghyd ag asesiad o hyder y sefydliad i allu cyflawni hyn. Bwriedir i’r adroddiad gael ei ddarllen ochr yn ochr â’r Adroddiad Perfformiad Integredig. Fodd bynnag, nid yw’r berthynas rhwng rhai o’r cerrig milltir cyflawni a dangosyddion perfformiad allweddol yn glir ym mhob achos. O ganlyniad, mae’n anodd i’r Bwrdd asesu a yw cyflawni’r cerrig milltir yn cyflawni’r buddion a’r canlyniadau a fwriadwyd (rydym yn trafod yr Adroddiad Perfformiad Integredig ymhellach ym **mharagraff 73**). Nodwyd bod cyflawni Cynllun Integredig Blynyddol 2023-24has yn risg strategol benodol[4] yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd

34 Gwnaethom ystyried a yw Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw.

[4] Ar gyfer y risg hon, mae’r sgôr risg presennol, y rheolaethau a’r sicrwydd wedi’u nodi’n glir yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, yn ogystal â’r camau allweddol i fynd i’r afael â bylchau mewn rheolaethau a sicrwydd.

35 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithredu'n effeithiol, ac yn parhau i ganolbwyntio'n dda ar dryloywder cyhoeddus, trefniadau llywodraethu da, a gwella'n barhaus. Ceir cyfleoedd o hyd i wella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd ymhellach yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd y strwythur pwyllgorau newydd.**

## Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

36 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hyrwyddo ac yn dangos ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus busnes bwrdd a phwyllgor. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau sy'n hygyrch i'r cyhoedd;
- papurau'r bwrdd a phwyllgorau ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfodydd;
- busnes a phenderfyniadau'r Bwrdd a phwyllgorau'n cael eu cynnal yn dryloyw;
- sicrhau bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd a phwyllgorau ar gael i'r cyhoedd mewn modd amserol.

37 **Er bod y Bwrdd yn parhau i fod â threfniadau da ar waith i gynnal ei fusnes yn dryloyw,** canfuom fod **cyfleoedd i wella o hyd**.

38 Er bod cyfarfodydd pwyllgor yn parhau i fod yn rhithwir, yn cael eu ffrydio'n fyw a'u recordio, dim ond yn bersonol y cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd o hyd. O ganlyniad, mae llai o opsiynau i'r cyhoedd fynychu ac arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd. Fodd bynnag, cynhaliwyd Cyfarfod Bwrdd cyhoeddus mis Medi 2023 a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn rhithwir a rhoddwyd digon o gyhoeddusrwydd iddynt ar y cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod mwy o bobl nag arfer wedi arsylwi ar y ddau gyfarfod, gan ddangos bod diddordeb cyhoeddus ym musnes y Bwrdd pan fydd cyfarfodydd yn cael eu digon o gyhoeddusrwydd ac yn hygyrch. Er mwyn gwella tryloywder cyhoeddus ymhellach, dylai'r Bwrdd Iechyd ffrydio cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn fyw fel mater o drefn a sicrhau bod cofnodion ar gael drwy ei wefan (**Argymhelliad 2**). Y llynedd, gwnaethom argymell y dylid postio nodiadau atgoffa cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau a dolenni i bapurau ar y cyfryngau cymdeithasol yn nes at ddyddiadau cyfarfodydd. Mae'r argymhelliad hwn yn parhau i fod ar waith (gweler **Atodiad 2 2022 A3a**).

39 Mae papurau'r Bwrdd a phwyllgorau yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd, ac yn parhau i gael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd saith diwrnod cyn cyfarfodydd. Mae cofnodion sydd wedi'u cadarnhau yn cael eu lanlwytho i wefan y Bwrdd Iechyd ar wahân, felly mae cofnodion ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd neu'r pwyllgor. Fodd bynnag, mae'r arfer hwn wedi bod yn anghyson ers dechrau eleni (**Argymhelliad 3**). Y llynedd, gwnaethom argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y papurau ar gyfer holl gyfarfodydd y Grŵp Cynghori yn cael eu cyhoeddi ar ei wefan mewn modd amserol. Ar y cyfan, mae hyn wedi gwella. Fodd

bynnag, nid yw papurau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid[5] yn cael eu lanlwytho mewn modd amserol o hyd. At hynny, er bod y Fforwm Gweithwyr Iechyd Proffesiynol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, nid yw papurau cyfarfodydd blaenorol ar gael ychwaith (gweler **Atodiad 2 2022 A3b**).

40 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau preifat ar gyfer y materion mwyaf sensitif ac yn parhau i fanylu ar eitemau i'w trafod yn breifat ar agendâu cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a phwyllgorau. Fel yr argymhellwyd y llynedd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella trefniadau drwy egluro'n gryno ar agendâu cyhoeddus pam fod materion yn cael eu trafod yn breifat (gweler **Atodiad 2 2022 A3f**). Fodd bynnag, hyd yma, nid yw'n sicrhau bod cofnodion cryno o gyfarfodydd preifat y Bwrdd a phwyllgorau ar gael i'r cyhoedd (gweler **Atodiad 2 2022 A3c**).

41 Mae Camau Gweithredu'r Cadeirydd yn parhau i gael eu gwneud yn unol â'r Rheolau Sefydlog ac adroddir arnynt yng nghyfarfod cyhoeddus nesaf y Bwrdd. Fodd bynnag, mae nifer uchel o benderfyniadau caffael wedi'u gwneud gan y Cadeirydd[6] yn hytrach na'r Bwrdd llawn oherwydd sefyllfaoedd brys nas rhagwelwyd. Amlygwyd hyn mewn adroddiad a gyflwynwyd ym Mhwyllgor Archwilio Ebrill 2023. Drwy ymchwilio ac adrodd ar ganfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dull aeddfed o adolygu'r cyfle i wneud penderfyniadau'r Bwrdd yn fwy tryloyw.

## Trefniadau i gefnogi cynnal busnes y Bwrdd

42 Gwnaethom ystyried a oes trefniadau priodol a thryloyw ar waith i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau yn effeithiol. Gwnaethom chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- Cadw a Dirprwyo Pwerau ffurfiol, cyfredol ac sydd ar gael i'r cyhoedd, a Chynllun Dirprwyo ar waith, sy'n nodi atebolrwydd yn glir;
- Rheolau Sefydlog (SOs) ffurfiol, cyfredol ac sydd ar gael i'r cyhoedd, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFIs) ar waith, ynghyd â thystiolaeth o gydymffurfiaeth;
- pholisïau a gweithdrefnau ffurfiol, cyfredol, ac sydd ar gael i'r cyhoedd, sydd ar waith i hyrwyddo a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb.

43 **Er bod trefniadau'n parhau i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd yn effeithiol,** canfuom fod **yr ôl-groniad sylweddol o bolisïau sydd wedi dyddio yn peri risg bosibl o dorri gofynion rheoliadol a statudol.**

44 Mae Rheolau Sefydlog, Cynllun Cadw a Dirprwyo a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd yn parhau i gael eu hadolygu'n flynyddol, gyda

[5] Ni chafodd papurau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid eu lanlwytho i wefan y Bwrdd Iechyd ers mis Mai 2023.

[6] Yn 2023, roedd 34 o Gamau Gweithredu gan y Cadeirydd a dim ond dau gyfarfod Bwrdd wedi'u cymeradwyo.

thystiolaeth dda o gydymffurfiaeth. Cymeradwyodd y Bwrdd ddiwygiadau i'r dogfennau hyn ym mis Mai a mis Tachwedd 2023, yn dilyn gwaith craffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Er eu bod ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd, mae'r fersiynau sydd ar gael yn ddyddiedig Mai 2022, yn hytrach na'r fersiynau diweddaraf (**Argymhelliad 3**).

45 Mae datganiadau o fuddiant yn parhau i fod yn eitem sefydlog ar holl agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau, ac rydym yn parhau i arsylwi cydymffurfiaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r cofnod staff electronig i gofnodi datganiadau o fuddiant, rhoddion a lletygarwch[7]. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn goruchwylio'r broses a chydymffurfiaeth yn rheolaidd, gan dderbyn yr Adroddiad Olrhain Datganiadau o Ddiddordeb, Rhoddion a Lletygarwch, a chofrestr lawn o fuddiannau yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd. Cyhoeddir y gofrestr buddiannau ar gyfer yr holl staff ar wefan y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cyhoeddi cofrestr ar wahân ar gyfer aelodau'r Bwrdd ar ei wefan. Fodd bynnag, mae wedi dyddio ac mae angen ei ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau i aelodaeth y Bwrdd **(Argymhelliad 3)**.

46 Mae gan y Bwrdd Iechyd ôl-groniad sylweddol o bolisïau sydd wedi dyddio. Ym mis Mai 2023, rhoddodd adolygiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol o'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli dogfennau polisi sicrwydd cyfyngedig. Canfu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol fod 68% o bolisïau'r Bwrdd Iechyd naill ai wedi dyddio neu angen eu hadolygu, sy'n peri risg bosibl o dorri gofynion rheoliadol a statudol. Er mwyn gwella'r gwaith o reoli polisïau, mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio'r defnydd o'r platfform Rheoli ac Olrhain Archwilio (AMaT)[8]. Mae ganddo hefyd arweinydd polisi penodol yn y Tîm Llywodraethu Corfforaethol i arwain y gwaith gwella hwn.

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau

47 Gwnaethom ystyried a yw cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol. Gwnaethom chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- strwythur pwyllgorau priodol, integredig sy'n gweithredu'n dda ar waith, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol, sy'n adlewyrchu canllawiau perthnasol, ac sy'n helpu i gyflawni gofynion statudol;
- Agendâu a rhaglenni gwaith y Bwrdd a phwyllgorau sy'n cwmpasu pob agwedd ar eu Cylch Gorchwyl priodol yn ogystal â chael eu llunio'n barhaus gan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;

[7] Gofynnir i weithwyr y Bwrdd Iechyd wneud un datganiad o fuddiant, gan ei newid dim ond os bydd eu hamgylchiadau'n newid. O ran rhoddion, lletygarwch a nawdd, mae'n ofynnol i staff wneud datganiadau yn ôl yr angen.

[8] Byddai system AMaT yn hwyluso catalogio bolisïau a dyddiadau adnewyddu'n glir, gan anfon nodiadau atgoffa yn awtomatig at y perchennog wrth i ddyddiadau adolygu polisi agosáu. System â llaw yw hon ar hyn o bryd.

- cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor sy'n cael eu cadeirio'n dda sy'n dilyn prosesau y cytunwyd arnynt, gydag aelodau'n arsylwi ar arferion cyfarfodydd ac yn darparu cydbwysedd da o graffu, cymorth a her;
- pwyllgorau'n cael ac yn gweithredu ar y sicrwydd gofynnol, ac yn rhoi sicrwydd amserol a phriodol i'r Bwrdd;
- papurau Bwrdd a phwyllgorau clir ac amserol sy'n cynnwys y lefel angenrheidiol/briodol o wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol, craffu a sicrwydd.

48 Canfuom fod **strwythur pwyllgorau newydd y Bwrdd Iechyd yn ymsefydlu'n dda, ond mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar ei effeithiolrwydd cyffredinol. Mae'r Bwrdd yn parhau i gael papurau yn amserol, wedi'u hysgrifennu'n dda, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i wella eu cynnwys a'u hansawdd ymhellach.**

49 Y llynedd, nodwyd gennym fod y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei strwythur pwyllgorau. Yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd ym mis Mawrth 2023, daeth y strwythur newydd i rym ym mis Ebrill 2023, ac mae'n gymysgedd o bwyllgorau newydd a newidiadau i'r trefniadau presennol[9]. Er bod strwythur pwyllgorau newydd y Bwrdd Iechyd yn ymsefydlu'n dda, mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar ei effeithiolrwydd. Fodd bynnag, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu effeithiolrwydd y strwythur pwyllgorau newydd fel rhan o adolygiad effeithiolrwydd Bwrdd a phwyllgorau 2023-24 (**Argymhelliad 4**). Dylai'r adolygiad roi sylw arbennig i'r canlynol:

- a oes digon o oruchwyliaeth o'r amcanion a'r blaenoriaethau strategol diwygiedig;
- a roddir digon o sylw i bob agwedd ar fusnes y Bwrdd;
- a oes digon o oruchwyliaeth o'r holl risgiau strategol;
- a oes gan swyddogion ac aelodau'r gallu i gefnogi cyfarfodydd pwyllgorau'n amlach.

50 Mae gan y Bwrdd a'i bwyllgorau gylch gorchwyl a rhaglenni gwaith cyfredol o hyd, a gaiff eu hadolygu'n flynyddol[10]. Mae Cylch Gorchwyl a chynlluniau gwaith y Bwrdd a phwyllgorau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd ac maent yn nodi'n glir y dyddiadau adolygu a chymeradwyo, fel yr argymhellwyd y llynedd (gweler **Atodiad**

[9] Disodlodd y Bwrdd Iechyd y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni a'r Pwyllgor Cyllid, gan sefydlu Pwyllgor Pobl a Diwylliant a Phwyllgor Cyllid a Pherfformiad newydd. Erbyn hyn, mae'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn is-bwyllgor sy'n adrodd i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd. Mae amlder cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, a'r Pwyllgor Deallusrwydd Iechyd a Digidol wedi cynyddu i fisol a chwarterol yn y drefn honno. Mae trafodaethau strategol yn cael eu cadw ar gyfer yr awr a hanner gyntaf o Sesiynau Datblygu'r Bwrdd bob yn ail fis.

[10] Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd y Bwrdd y rhan fwyaf o gylchoedd gorchwyl a chynlluniau gwaith pwyllgorau. Cymeradwyodd y Bwrdd gylch gorchwyl a chynlluniau gwaith y ddau bwyllgor newydd ym mis Gorffennaf 2023, er mwyn neilltuo amser ar gyfer rhagor o waith mireinio.

**2 2022 A3d**). Gan dderbyn bod y strwythur pwyllgorau newydd yn ymsefydlu o hyd, gwelsom gyfarfodydd pwyllgorau a gadeiriwyd yn dda, a oedd yn dilyn prosesau y cytunwyd arnynt, yn rhedeg ar amser, a chawsant gefnogaeth dda gan y Tîm Llywodraethu Corfforaethol. Mae Aelodau Annibynnol yn parhau i ddarparu her dda, a ddarperir mewn ffordd adeiladol. Yn gadarnhaol, ymddengys fod perthynas iach rhwng Aelodau Gweithredol ac Aelodau Annibynnol.

51 Mae pwyllgorau'n parhau i groesgyfeirio materion yn briodol i bwyllgorau eraill ac yn uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd yn ôl yr angen. Mae adroddiadau ar y prif bwyntiau gan gadeiryddion pwyllgorau yn parhau i fod ar frig agendâu'r Bwrdd, gan sicrhau bod unrhyw risgiau a amlygwyd gan y cadeiryddion yn cael eu trafod yn gyntaf. Nid yw cadeiryddion pwyllgorau yn cyfarfod ar wahân; fodd bynnag, mae pob Aelod Annibynnol yn cyfarfod cyn pob cyfarfod Bwrdd ac yn cyfarfod yn anffurfiol bob mis. Mae hyn yn rhoi cyfle i ofyn cwestiynau, codi ymwybyddiaeth o faterion, a chroesgyfeirio materion. Fodd bynnag, efallai y byddai'r Bwrdd Iechyd hefyd am ystyried sefydlu grŵp penodedig ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau i drafod busnes pwyllgorau'n benodol a'r dull gorau o gael sicrwydd ar faterion sy'n berthnasol i fwy nag un pwyllgor (**Argymhelliad 4**).

52 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynhyrchu papurau Bwrdd a phwyllgorau clir, amserol ac wedi'u hysgrifennu'n dda, ynghyd ag adroddiadau eglurhaol sy'n canolbwyntio ar faterion allweddol. Ers y llynedd, rydym wedi gweld cynnydd yn y defnydd o ddata i gefnogi adroddiadau naratif, sy'n ddatblygiad cadarnhaol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ceisio lleihau nifer y papurau drwy sicrhau bod dogfennau ategol ar gael ar wahân. Er ein bod yn gweld gwerth y trefniant hwn, nid yw bob amser yn glir pam yr ystyrir bod rhai dogfennau'n ategol ac eraill ddim. Er enghraifft, roedd y strategaeth hirdymor ddiwygiedig yn ddogfen ategol ym mhapurau'r Bwrdd ar gyfer cyfarfod mis Medi 2023, er iddi gael ei chyflwyno i'w chymeradwyo. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod lle i wella, ac mae wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu cynigion i'r Cadeirydd eu hystyried. Y llynedd, amlygwyd enghreifftiau o swyddogion yn siarad i gyfres o sleidiau cyflwyniad na chawsant eu rhannu ymlaen llaw. Mae hyn wedi gwella, gyda chyflwyniadau bellach yn cael eu cynnwys mewn papurau neu'n cael eu defnyddio ar y diwrnod i gyflwyno papur sydd eisoes yn y pecyn, gan alluogi aelodau'r Bwrdd i baratoi'n llawn ymlaen llaw (gweler **Atodiad 2 2022 A3e**).

## Ymrwymiad y Bwrdd i glywed gan gleifion/defnyddwyr gwasanaeth a staff

53 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hyrwyddo ac yn dangos ymrwymiad i glywed gan gleifion/defnyddwyr gwasanaeth a staff. Gwnaethom chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- y Bwrdd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addas i glywed gan gleifion/defnyddwyr gwasanaeth a staff.

54 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i glywed gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.**

55 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ar gyfer ymgysylltu â chleifion a staff a gwrando arnynt. Mae'r Bwrdd yn parhau i gaeth amrywiaeth dda o straeon gan gleifion a staff ar ddechrau pob cyfarfod Bwrdd cyhoeddus. Yn gadarnhaol, mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd hefyd yn cael stori gan staff ar ddechrau pob cyfarfod. Fodd bynnag, mae cyfle i ailadrodd y trefniant hwn ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, er mwyn galluogi aelodau i glywed straeon cleifion yn rheolaidd (**Argymhelliad 5**). Mae aelodau'r Bwrdd wedi cynnal teithiau diogelwch cleifion misol ar draws ystod o wasanaethau. Roedd y cyfweleion yn gadarnhaol am y broses hon, gyda materion a nodwyd yn ystod y teithiau cerdded yn cael eu cofnodi a'u rheoli drwy'r cymhwysiad[11] Tendable.

56 Ym mis Hydref 2022, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gyflwyno CIVICA[12], sy'n galluogi ffyrdd mwy cyfoethog o gasglu a dadansoddi safbwyntiau cleifion er mwyn llywio cynlluniau gwella. Drwy ei Adroddiad Perfformiad Integredig, mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar lwyddiant y system CIVICA o ran cynyddu gweithgarwch ymgysylltu â cleifion. Mae'r Adroddiad Dangosyddion Ansawdd, a dderbynnir gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, yn rhoi trosolwg o adborth cleifion a gasglwyd drwy'r system CIVICA, a adroddir wedyn i'r Bwrdd drwy adroddiad cadeirydd y pwyllgor. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ystyried defnyddio'r system i gasglu barn staff.

## Cydlyniant y Bwrdd ac ymrwymiad i welliant parhaus

57 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn sefydlog ac yn gydlynol ac yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus. Gwnaethom chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- Bwrdd sefydlog a chydlynol gyda chnewyllyn o uwch arweinwyr sy'n meddu ar y gallu, y sgiliau a'r profiad priodol;
- y Bwrdd a'i bwyllgorau yn adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canfyddiadau i lywio a chefnogi gwelliant parhaus;
- rhaglen berthnasol o ddatblygu, cefnogi a hyfforddi'r Bwrdd ar waith.

58 Canfuom fod **y Bwrdd yn sefydlog, yn fedrus ac yn brofiadol sy'n parhau i fod yn ymrwymedig i ddysgu, datblygu a gwelliant parhaus. Er bod nifer o leoedd gwag ar gyfer Aelodau Annibynnol, cymerwyd camau cadarnhaol er mwyn sicrhau bod cworwm o hyd mewn cyfarfodydd pwyllgorau.**

[11] Mae Tendable yn gymhwysiad a ddefnyddir i gofnodi, adrodd, a rheoli arolygiadau ansawdd gofal iechyd mewn amser real.

[12] Mae CIVICA yn system ddigidol i gasglu profiadau cleifion.

59 Mae’r Tîm Gweithredol wedi sefydlogi yn dilyn sawl penodiad gweithredol newydd y llynedd. Bu dau newid eleni, ac mae’r ddau ohonynt wedi’u rheoli’n dda. Ym mis Chwefror 2023, gadawodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, gyda chyfarwyddwr interim yn ei swydd nes i’r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol newydd ddechrau ym mis Awst 2023. Dechreuodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd newydd ym mis Rhagfyr 2023, yn dilyn ymddeoliad y cyfarwyddwr blaenorol yn ystod yr un mis.

60 Fodd bynnag, bu trosiant o Aelodau Annibynnol eleni. Mae gan y Bwrdd Iechyd dair swydd wag ar hyn o bryd yn dilyn ymadawiad yr Aelod Annibynnol (Cyfreithiol), yr Aelod Annibynnol (Llywodraeth Leol), a’r Aelod Annibynnol (Prifysgol) ym mis Awst, mis Hydref, a mis Tachwedd 2023 yn y drefn honno. Mae’r broses recriwtio ar gyfer pob swydd yn mynd rhagddi ac mae trefniadau interim ar waith er mwyn sicrhau bod cworwm ym mhob cyfarfod pwyllgor. Mae Aelodau Annibynnol yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y Cadeirydd, sy’n cyfarfod â nhw bob mis, ac yn cynnal arfarniadau interim blynyddol a bob chwe mis, i drafod amcanion ac anghenion datblygiad personol.

61 Mae datblygiad aelodau’r Bwrdd yn parhau i gael ei gefnogi’n dda drwy Sesiynau Datblygu’r Bwrdd bob deufis y Bwrdd Iechyd, sy’n ‘ddeinamig’ i ganiatáu ystyried materion byw a chyfoes. Ar wahân i drafodaethau strategol, sef rhan gyntaf pob cyfarfod, mae Sesiynau Datblygu’r Bwrdd wedi ymdrin ag amrywiaeth o bynciau priodol, gan gynnwys ymateb y Byrddau Iechyd i’r materion sy’n codi o achos Lucy Letby, datblygu cynllun ariannol hirdymor a thair sesiwn wedi’u hwyluso ar effeithiolrwydd y Bwrdd. Fodd bynnag, ni chynigiwyd unrhyw hyfforddiant neu gyfnod sefydlu penodol i Aelodau Annibynnol yn dilyn creu’r strwythur pwyllgorau newydd (gweler **paragraff 49**). Fel rhan o’i adolygiad o effeithiolrwydd, dylai’r Bwrdd Iechyd fyfyrio ar y cymorth sydd ar gael i gadeiryddion pwyllgorau neu aelodau pwyllgor newydd (**Argymhelliad 4**). Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i Aelodau Annibynnol newydd ymuno â’r sefydliad. Yn gadarnhaol, dywedodd Aelodau Annibynnol wrthym eu bod wedi gwerthfawrogi’r dull rhagweithiol y mae’r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol newydd yn ei ddefnyddio i nodi anghenion hyfforddi a datblygu.

62 Mae’r Bwrdd yn parhau i sicrhau bod trefniadau da ar waith ar gyfer adolygu ei effeithiolrwydd. Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2023, cyn i’r strwythur pwyllgorau newydd ddod i rym, cwblhaodd y Bwrdd a’r pwyllgorau eu hadolygiadau effeithiolrwydd blynyddol priodol. Arweiniodd hyn at drafodaeth ar themâu cyffredin yn Sesiwn Datblygu’r Bwrdd yn Ebrill 2023 a nododd ddysgu ehangach. Ym mis Mai 2023, cafodd y Bwrdd Gynllun Gweithredu yn seiliedig ar adolygiad 2022-23, ynghyd â diweddariad ar gynnydd o ran rhoi cynllun gweithredu’r llynedd ar waith. Y llynedd, gwnaethom adrodd ar gynlluniau’r Bwrdd Iechyd i gynnal ei adolygiad o effeithiolrwydd 2022-23 drwy drafodaethau wedi’u hwyluso; fodd bynnag, ni ddigwyddodd hyn. Efallai yr hoffai’r Bwrdd Iechyd ystyried y dull hwn yn 2023-24 er mwyn helpu i ddeall yn well unrhyw bryderon a nodwyd drwy’r arolygon effeithiolrwydd, yn enwedig gan mai hwn fydd yr adolygiad cyntaf ers rhoi’r strwythur pwyllgorau newydd ar waith.

# Systemau sicrwydd corfforaethol

63 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

64 **Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal systemau sicrwydd corfforaethol da,** canfuom fod **cyfleoedd i wella trefniadau rheoli risg gweithredol, adrodd ar berfformiad, a goruchwylio'r broses o olrhain argymhellion.**

## Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol

65 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio, a chraffu ar risgiau strategol. Gwnaethom chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) cyfredol ac sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol am y risgiau i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol y sefydliad;
- y Bwrdd yn mynd ati i fod yn berchen ar y BAF, yn ei adolygu, ei ddiweddaru a'i ddefnyddio i oruchwylio a mynd i'r afael â risgiau strategol a chraffu arnynt.
- fframwaith rheoli risg priodol a chyfredol ar waith, a ategir gan bolisïau, gweithdrefnau, a rolau a chyfrifoldebau clir;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg a gwaith craffu effeithiol ar effeithiolrwydd y system rheoli risg;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg a gwaith craffu effeithiol ar risgiau corfforaethol.

66 Canfuom fod **Bwrdd yn parhau i sicrhau bod trefniadau da ar waith ar gyfer goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol**. **Fodd bynnag, mae cyfle i wella trefniadau rheoli risg gweithredol.**

67 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â risgiau strategol wedi'u dogfennu'n glir yn ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (BAF) ac mae wedi cynnal ei drefn sefydledig i sicrhau gwaith craffu priodol gan y Bwrdd, pwyllgorau, ac arweinwyr gweithredol. Fel yr argymhellwyd y llynedd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru ei BAF er mwyn sicrhau bod y risgiau strategol yn cyd-fynd â'r amcanion strategol, y blaenoriaethau a'r ffrydiau gwaith diwygiedig (gweler **Atodiad 2 2022 A1**). Cyflwynwyd y BAF diwygiedig i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2023. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei archwaeth risg gyffredinol eto, ac mae'n parhau i fod yn 'ochelgar yn symud tuag at geisio'[13]. Fodd bynnag, mae archwaeth risg ar gyfer pob un o'r 15 risg strategol.

[13] Mae'r Bwrdd Iechyd yn diffinio archwaeth risg 'ochelgar' fel 'dewis ar gyfer opsiynau cyflenwi diogel sydd â lefel isel o risg gynhenid ac efallai mai prin yw'r gwobrau posibl'. Mae'n diffinio archwaeth risg 'ceisio' fel 'awyddus i fod yn arloesol ac i ddewis opsiynau sy'n cynnig gwobrau busnes uwch o bosibl (er gwaethaf mwy o risg gynhenid)'.

Mae'r BAF ar gael i'r cyhoedd drwy bapurau'r Bwrdd. Mae hefyd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, ar adeg ein hadolygiad, nid hwn oedd y fersiwn diweddaraf (**Argymhelliad 3**).

68 Mae'r Bwrdd hefyd yn parhau i dderbyn y Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRR) er gwybodaeth ym mhob cyfarfod. Mae'r CRR yn canolbwyntio ar risgiau eithafol (y rhai sy'n sgorio dros 20), ac roedd 55 ohonynt ym mis Tachwedd 2023. Mae'r adroddiad eglurhaol sy'n cyd-fynd â'r CRR yn parhau i roi crynodeb da ac mae bellach yn cynnwys dadansoddiad tueddiadau lefel uchel. Mae'r rhan fwyaf o risgiau corfforaethol yn cyd-fynd â'r risgiau strategol a nodir yn y BAF sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, asedau cyfalaf, a'r gweithlu. Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn map sicrwydd, sy'n amlygu unrhyw fylchau mewn sicrwydd sydd wedi'u mapio yn erbyn y tair llinell amddiffyn[14]. Mae pob pwyllgor yn parhau i adolygu a chraffu ar risgiau corfforaethol a/neu strategol gyda threfniadau sy'n briodol i'w cylch gorchwyl.

69 Rhoddodd adolygiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol o systemau rheoli risg y Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2023 sgôr sicrwydd rhesymol. Roedd yr adolygiad yn ategu strategaeth a gweithdrefnau risg y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, gwnaeth argymhellion ar drefniadau rheoli risg gweithredol, yn benodol mewn perthynas â chofrestrau risg gweithredol anghyson/anghyflawn, cwblhau ffurflenni asesu risg ar gyfer risgiau newydd eu nodi, prosesau uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau, a monitro risgiau.

## Dull corfforaethol o oruchwylio perfformiad sefydliadol

70 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio, a chraffu ar berfformiad sefydliadol Gwnaethom chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- fframwaith rheoli perfformiad priodol, cynhwysfawr a chyfredol ar waith, wedi'i seilio ar rolau a chyfrifoldebau clir;
- y Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu trosolwg a gwaith craffu effeithiol ar berfformiad sefydliadol.

71 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i ddarparu trosolwg da o berfformiad sefydliadol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i gryfhau'r Adroddiad Perfformiad Integredig gwell ymhellach a sicrhau bod y Fframwaith Rheoli Perfformiad yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion strategol diwygiedig.**

[14] Mae tair llinell amddiffyn y Bwrdd Iechyd yn nodi lefelau sicrwydd, sef: llinell gyntaf – sicrwydd lefel rheoli, ail linell – Tîm Risg a Rheoleiddio'r Bwrdd Iechyd, Tîm Profiad y Claf, Tîm Diogelwch Cleifion, Llywodraethu'r Gweithlu, Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth, a'r drydedd linell – Sicrwydd lefel annibynnol fel Archwilio Mewnol, Archwilio Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru, a'r Gwasanaeth Gwrth-dwyll.

72 Y llynedd, gwnaethom argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei Fframwaith Rheoli Perfformiad (PMF), a gymeradwywyd ganddo yn 2020, ochr yn ochr â'i strategaeth deng mlynedd a'i ddiwygiad o strwythur pwyllgorau (gweler **Atodiad 2 2022 A1**). Ar adeg ein gwaith, roedd y Bwrdd Iechyd yng nghamau cynnar cynllunio'r gwaith hwn. Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflymu'r gwaith hwn er mwyn sicrhau bod ei drefniadau rheoli perfformiad yn cyd-fynd yn llawn â'i amcanion strategol diwygiedig, a'u bod yn cefnogi'r gwaith o fonitro a chyflawni'r strategaeth ddiwygiedig.

73 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i ddarparu trosolwg da o berfformiad y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd yn cael yr Adroddiad Perfformiad Integredig (IPR) ym mhob cyfarfod, yn dilyn gwaith craffu manwl gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad sydd newydd ei sefydlu. Mae'r pwyllgor hefyd yn cael archwiliadau dwfn i feysydd lle mae perfformiad islaw'r targed. Yn ystod 2023, mae'r pwyllgor wedi archwilio'n ddwfn i'r llwybr canser, rhestr aros orthopaedeg, y wybodaeth ddiweddaraf am ofal a gynlluniwyd, a sefyllfa ariannol iechyd meddwl. Mae pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn rhoi diweddariad ar eu maes gwaith yng nghyfarfodydd y Bwrdd, sy'n dangos arweinyddiaeth gyfunol a chyfrifoldeb ar y cyd am berfformiad.

74 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w IPR. Cafodd y Bwrdd yr IPR ar fformat newydd ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r adran gyntaf yn canolbwyntio ar gynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn chwe blaenoriaeth gweinidogol[15], tra bod yr ail adran wedi'i threfnu o amgylch y nodau pedwarplyg a nodir yn Cymru Iachach, gan ganolbwyntio ar Fframwaith Perfformiad y GIG ac ymrwymiadau Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy adran yn rhoi crynodeb da o berfformiad y Bwrdd Iechyd. Ategir yr IPR gan adroddiad eglurhaol, wedi'i ysgrifennu'n dda, sy'n rhoi crynodeb o'r pwyntiau allweddol a'r materion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd; perfformiad gweithredol; pobl a diwylliant; ansawdd, diogelwch a phrofiad; a chyllid. Er ein bod yn cydnabod bod yr IPR yn adroddiad newydd a'i fod yn dal i esblygu, mae diffyg gwybodaeth bwysig yn yr adroddiad i gynorthwyo'r gwaith o fonitro a chraffu:

- ni ddarperir crynodeb bob amser o'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â thanberfformiad (gweler **Atodiad 2 2022 A2**);
- nid yw adran dau o'r IPR yn rhoi eglurder ynghylch pa fetrigau sy'n cyrraedd y targed ai peidio, tra bod adran un yn gwneud hynny drwy ddefnyddio'r system sgorio[16] RAG;
- mae adran dau yn aml yn hepgor siartiau data ac yn gadael yr adran yn wag heb esbonio pam nad oes data ar gael;

[15] Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi pennu chwe maes blaenoriaeth; mae'r rhain yn ymwneud â gwella: oedi wrth drosglwyddo gofal, mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol, gofal brys a gofal mewn argyfwng, gofal a gynlluniwyd, canser, a gwasanaethau iechyd meddwl.

[16] Coch, Melyn, Gwyrdd.

- nid oes unrhyw ddata meincnodi wedi'i gynnwys i ddangos sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cymharu â chyrff iechyd eraill.

Dylai'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn gwella dull y Bwrdd o oruchwylio perfformiad sefydliadol ymhellach **(Argymhelliad 6)**.

## Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau

75 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Gwnaethom chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- trefniadau corfforaethol sydd ar waith sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn cyflawni ei ofynion o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020;
- fframwaith (neu debyg) sydd ar waith sy'n cefnogi llywodraethu ansawdd effeithiol;
- strwythurau sefydliadol clir a llinellau atebolrwydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol/ansawdd;
- y Bwrdd a'r pwyllgor perthnasol yn darparu trosolwg a gwaith craffu effeithiol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

76 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau newydd o ran ansawdd a gonestrwydd, ac i wella ei ddull cyffredinol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau.**

77 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau priodol i asesu ei drefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r dyletswyddau newydd a nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020). Mae aelodau'r Bwrdd wedi cael eu briffio ar ddyletswyddau gonestrwydd ac ansawdd mewn cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a Sesiynau Datblygu'r Bwrdd. At hynny, mae gan aelodau'r Bwrdd a staff fynediad parhaus at hyfforddiant a chymorth. Mae'r IPR hefyd yn cynnwys adran ar y Ddyletswydd Gonestrwydd sy'n galluogi'r Bwrdd i gadw trosolwg o nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt a'r cynnydd a wnaed i ymgorffori'r cyfrifoldebau newydd. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) hefyd yn cael diweddariadau rheolaidd drwy'r Adroddiadau Sicrwydd a ddarperir gan y Byrddau Clinigol.

78 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn parhau i oruchwylio Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf 2021-26 y Bwrdd Iechyd. Mae'n cael diweddariadau rheolaidd ar weithrediad y Fframwaith a'i is-bwyllgorau a gymeradwywyd fel rhan o'r Fframwaith. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad hefyd yn cynnal trosolwg o ansawdd a diogelwch gwasanaethau drwy ei adroddiad dangosyddion ansawdd bob deufis, a drefnir o amgylch y safonau ansawdd iechyd a gofal newydd. Ers mis Gorffennaf 2023, mae'r adroddiad wedi'i

gyflwyno mewn fformat gwell sy'n gyfoethog o ran data. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am fetrigau, megis digwyddiadau cenedlaethol y gellir eu hadrodd a digwyddiadau byth; atal a rheoli heintiau; digwyddiadau meddyginiaeth; cyfraddau marwolaethau; cwympiadau a difrod pwysau; effeithiolrwydd clinigol; ymchwiliadau COVID-19; a phryderon a phrofiad y claf. Mae'r pwyllgor hefyd yn cael archwiliadau dwfn sy'n benodol i'r gwasanaeth bob deufis ac Adroddiadau Sicrwydd y Bwrdd Clinigol bob mis.

## Dull corfforaethol o olrhain argymhellion

79 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar systemau ar gyfer olrhain cynnydd er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion a chanfyddiadau archwilio ac adolygu. Gwnaethom chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- systemau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer olrhain ymatebion i argymhellion a chanfyddiadau archwiliadau ac adolygiadau eraill mewn modd amserol.

80 **Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cryf ar gyfer olrhain argymhellion archwilio ac adolygu,** canfuom fod **cyfleoedd i wella.**

81 Ym mis Medi 2023, cyhoeddodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd sylweddol ar drefniadau olrhain argymhellion y Bwrdd Iechyd. Ar y cyfan, canfu'r adolygiad gwaith monitro, adrodd a chraffu da ar yr olrheinwyr argymhellion, ond gwnaeth argymhellion i wella'r naratif i gefnogi'r broses o gau argymhellion archwilio mewnol ac allanol, i wella cywirdeb adrodd ar gyfer cyrff adolygu, ac i wella'r craffu ar yr olrheinwyr argymhellion.

82 Rydym yn cytuno bod gan y Bwrdd Iechyd broses olrhain argymhellion glir a sefydledig, ond mae potensial i wella effaith y broses hon. Y llynedd, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd system a oedd yn caniatáu ystyriaeth ddyfnach i gamau gweithredu risg uchel neu hirsefydlog, ond ychydig o dystiolaeth a welsom o'i gweithredu. Cyfeirir rhai adroddiadau archwilio ac arolygu at y pwyllgorau priodol ar gyfer craffu manylach, ond nid yw hon yn broses ffurfiol. Mae lle i neilltuo argymhellion yn ffurfiol i bwyllgorau perthnasol ar gyfer craffu dyfnach, gyda threfniadau ar waith i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio am sicrwydd (**Argymhelliad 7a**). Mae'r olrheinwyr cydymffurfio mewnol, allanol a rheoleiddiol ar wahân a'r adroddiadau cysylltiedig yn glir, yn cael eu rheoli'n weithredol ac yn cynnwys digon o wybodaeth i graffu ym mhob Pwyllgor Archwilio arall. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau ar wahân yn caniatáu i themâu argymhellion gael eu nodi i wella dysgu, ac i dynnu sylw at faterion cyffredin ac atebion a rennir **(Argymhelliad 7b)**. Ym mis Medi 2023, roedd 31 o argymhellion agored gan Archwilio Cymru, 24 wedi'u cwblhau'n rhannol, a phump heb unrhyw gamau wedi'u cymryd.

# Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

83 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol.

84 **Er gwaethaf prosesau clir ar gyfer cynllunio, rheoli a monitro ariannol,** canfuom fod **sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24 yn heriol.**

## Amcanion ariannol

85 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei amcanion ariannol allweddol. Gwnaethom chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- y sefydliad yn cyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer2022-23, a'r cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2020-21 a 2022-23;
- y sefydliad ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau yn 2023-24.

86 Canfuom **nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2022-23, ac mae'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2023-24 yn parhau i fod yn heriol.**

87 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol yn 2022-23. Nid oedd yn gweithredu o fewn ei derfyn adnoddau ar gyfer y flwyddyn nac o fewn ei derfyn adnoddau cronnol ar gyfer y cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2020-21 a 2022-23. Fodd bynnag, fel y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddiffyg arfaethedig o £26.9 miliwn ar gyfer 2022-23. Roedd hyn yn cynnwys £17.1 miliwn a nodwyd yn ei gynllun ariannol cychwynnol, a £9.8 miliwn ychwanegol y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru ganol blwyddyn i fynd i'r afael â phwysau gweithredol annisgwyl. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, gweithredodd y Bwrdd Iechyd o fewn ei derfyn adnoddau cyfalaf yn ystod 2022-23.

88 Fel y nodir ym **mharagraff 26**, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflwyno cynllun ariannol cytbwys i gefnogi ei Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023-2026. Yn lle hynny, mae'n gweithio yn unol â Chynllun Blynyddol sy'n nodi diffyg a ragwelir o £88.4 miliwn ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, ym mis Hydref 2023, rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i'r Bwrdd Iechyd y bydd yn sicrhau bod £63 miliwn o arian ychwanegol ar gael i wrthbwyso pwysau costau. Bydd hyn yn lleihau diffyg a ragwelir y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24 i £16.4 miliwn. Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd y targed ariannol diwygiedig hwn, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gyflawni ei darged arbedion o £32 miliwn ar gyfer y flwyddyn, ynghyd â 10% o'i ddiffyg gwreiddiol a ragwelwyd sy'n cyfateb i £8.8 miliwn. Ym Mis 8 2023-24, nododd y Bwrdd Iechyd orwariant o £6.4 miliwn yn erbyn ei ddiffyg arfaethedig ar gyfer y mis, oherwydd arbedion nas nodwyd a phwysau gweithredol.

## Dull corfforaethol o gynllunio ariannol

89 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar gynllunio ariannol. Gwnaethom chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- trefniadau cynllunio ariannol corfforaethol clir a chadarn ar waith;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau ariannol cyn eu cymeradwyo;
- arbedion cynaliadwy, realistig a chynlluniau gwella costau wedi'u costio'n gywir, sydd wedi'u cynllunio i gefnogi cynaliadwyedd ariannol a thrawsnewid gwasanaethau;
- y Bwrdd yn craffu ar arbedion a chynlluniau gwella costau yn briodol cyn iddynt gael eu cymeradwyo.

90 Canfuom fod gan y **Bwrdd Iechyd ddull da o gynllunio ariannol, ac mae wedi gosod targed arbedion uchelgeisiau gyda ffocws clir ar wella ansawdd a chyflawni cynaliadwyedd ariannol.**

91 Mabwysiadodd y Bwrdd Iechyd ddull cadarn ac integredig o ddatblygu ei gynllun ariannol ar gyfer 2023-24, gan ymgysylltu'n briodol â'r Bwrdd ac ar lefel weithredol. Roedd Byrddau Clinigol a'r Grŵp Datblygu a Chyflawni Strategaeth hefyd yn ymwneud â datblygu a chytuno ar y cynllun ariannol a blynyddol. Gwnaeth y cyn Bwyllgor Cyllid drafod datblygiad y cynllun ariannol fel mater o drefn o fis Ionawr 2023, ac adolygwyd y fersiwn derfynol yng nghyfarfod preifat y pwyllgor ym mis Mawrth 2023. Cymeradwywyd y cynllun gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023, fel rhan o gymeradwyaeth Cynllun Blynyddol 2023-24.

92 Yn 2022-23, methodd y Bwrdd Iechyd â chyrraedd ei darged arbedion o £57,000 o ychydig. Fel y nodwyd ym **mharagraff 88**, mae cynllun ariannol eleni yn cynnwys targed arbedion uchelgeisiol o 4% o £32 miliwn, gydag 1% wedi'i ddirprwyo i Fyrddau Clinigol a 3% yn canolbwyntio ar themâu gwella ansawdd. Mae cyflawni'r arbedion gwella ansawdd o 3% yn golygu gweithredu modelau gofal newydd ac ailgynllunio llwybrau clinigol presennol, gan ganolbwyntio'n benodol ar leihau hyd arhosiad mewn gwelyau acíwt, nodi effeithlonrwydd gweithredol a gwelliannau cynhyrchiant, gofal iechyd parhaus, rheoli meddyginiaethau, caffael, a gwneud y gorau o'r gweithlu. Drwy'r mentrau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn gobeithio lleihau ei sylfaen gostau yn ogystal â gwella canlyniadau. Ym Mis 8 2023-24, roedd gan y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £2.2 miliwn yn y cynllun arbedion o gymharu â'r sefyllfa a ragwelwyd. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, rhaid i'r Bwrdd Iechyd hefyd arbed £8.8 miliwn yn ychwanegol. Ym mis 8 2023-24, dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi nodi £5.4 miliwn yn erbyn y targed arbedion ychwanegol hwn. Mae perfformiad arbedion yn cael ei graffu'n rheolaidd yng nghyfarfod misol y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd Rhaglen Cynaliadwyedd bob pythefnos[17].

[17] Sefydlwyd y Bwrdd ym mis Ebrill 2023 a chaiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr.

93 Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i gyflawni cynaliadwyedd ariannol dros gyfnod o bum mlynedd ac, fel yr argymhellwyd y llynedd, mae'n modelu cynlluniau ariannol hirdymor (gweler **Atodiad 2 2022 A1**). Trafodwyd y rhain ag aelodau'r Bwrdd mewn Sesiynau Datblygu'r Bwrdd a chyfarfodydd preifat y Bwrdd. Cyffredinol yn gwneud sylwadau pellach ar ddull y Bwrdd Iechyd o nodi, cyflawni a monitro arbedion ariannol mewn darn o waith ar wahân y byddwn yn adrodd arno ar ddechau 2024.

## Dull corfforaethol o reoli arian

94 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar reoli arian, Gwnaethom chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- rheolaethau effeithiol ar waith sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Cadw a Dirprwyo;
- y Bwrdd yn goruchwylio trefniadau a pherfformiad yn briodol mewn perthynas â chamau tendro unigol, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
- trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith sy'n galluogi'r Bwrdd i ddeall ysgogwyr costau a sut maent yn effeithio ar gyflawni amcanion strategol;
- cyflwynwyd datganiadau ariannol y sefydliad ar gyfer 2022-23 ar amser, nid oeddent yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, a chafwyd barn archwilio lân.

95 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull o oruchwylio a chraffu ar reoli a rheolaethau ariannol**.

96 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i gael adroddiadau sicrwydd rheolaidd ar reolaethau ariannol, gan gynnwys adroddiadau ar atal twyll, camau gweithredu tendr sengl, colledion a thaliadau arbennig, a gordaliadau cyflogau Byrddau Iechyd. Ers y llynedd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi tynhau ei reolaethau ariannol mewnol a'i waith craffu i fynd i'r afael â'r pwysau ariannol ac i fodloni'r sefyllfa o ddiffyg cynlluniedig. Mae'r camau a gymerwyd gan y Bwrdd Iechyd yn cynnwys ceisio dileu gwariant ar staff asiantaeth a goramser, adolygu swyddi gweigion (ar gyfer staff gweinyddol yn unig i ddechrau), a pheidio â recriwtio na buddsoddi ar berygl. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau â'i fenter 'dim PO (Archeb Brynu), dim tâl' ac yn cyfyngu ar wariant ar eitemau nad ydynt yn hanfodol megis dodrefn, deunydd ysgrifennu ac offer TG. Er bod rheolaethau mewnol wedi'u tynhau, mae proses eithrio ar waith.

97 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Ddatganiadau Ariannol drafft i'w harchwilio'n allanol o fewn yr amserlenni gofynnol, ar ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Bwrdd eu hystyried ym mis Gorffennaf 2023. Ar gyfer 2022-23, gwnaethom gyhoeddi barn archwilio wir a theg ddiamod, ond cyhoeddwyd barn amodol ar reoleidd-dra, oherwydd ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyraniad adnoddau refeniw dros y cyfnod o dair blynedd.

## Trefniadau goruchwylio'r Bwrdd o berfformiad arianno

98 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu ar berfformiad ariannol yn briodol. Gwnaethom chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- y Bwrdd yn cael adroddiadau cywir, tryloyw ac amserol ar berfformiad ariannol, yn ogystal â'r heriau ariannol, y risgiau a'r camau lliniaru allweddol;
- y Bwrdd yn craffu ar asesiadau parhaus sefyllfa ariannol y sefydliad yn briodol.

99 Canfuom fod y **Bwrdd Iechyd yn parhau i sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer goruchwylio a chraffu ar berfformiad ariannol, gydag adroddiadau ariannol clir sy'n agored am heriau a risgiau ariannol.**

100 Mae'r adroddiad cyllid misol, a dderbynnir gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad sydd newydd ei sefydlu, yn parhau i roi naratif clir ac agored ar berfformiad ariannol, risgiau a heriau'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd o Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor, cofnodion y pwyllgor, ac adran gyllid yr Adroddiad Perfformiad Integredig a gyflwynir gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid.

101 Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad newydd yn rhoi cyfle i driongli heriau ariannol a pherfformiad. Mae'r pwyllgor wedi dechrau archwilio'n ddwfn yn ariannol i Fyrddau Clinigol sy'n ei chael hi'n anodd, gan hefyd ystyried risgiau perfformiad a mesurau lliniaru cysylltiedig. Er enghraifft, ym mis Awst 2023, cafodd y Pwyllgor drafodaeth fanwl ar y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl. Amlygodd yr adroddiad faterion ariannol a gwasanaeth, ac roedd yn cynnwys gwybodaeth feincnodi, camau lliniaru manwl, a throsolwg o gynllunio hirdymor.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

**Mae Arddangosyn 2 isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod**

| Elfen o ddull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Pwyllgorau Archwilio<br>• Pwyllgor Deallusrwydd Iechyd a Digidol<br>• Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad<br>• Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol<br>• Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad<br>• Pwyllgor Pobl a Diwylliant |

| Elfen o ddull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylch gorchwyl y Bwrdd a'r Pwyllgor, ynghyd â rhaglenni gwaith, agendâu, papurau a chofnodion<br>• Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau Buddiannau, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch<br>• Strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y CTCI<br>• Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol<br>• Adroddiadau allweddol yn ymwneud â pherfformiad sefydliadol a chyllid<br>• Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• Polisïau a gweithdrefnau perthnasol<br>• Adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-Dwyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill |

| Elfen o ddull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gyfweld â'r Uwch Swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Cadeirydd y Bwrdd<br>• Prif Weithredwr<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd<br>• Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro<br>• Is-gadeirydd y Bwrdd<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Deallusrwydd Iechyd a Digidol<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio Strategol<br>• Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus |

# Atodiad 2

## Cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol

**Mae Arddangosyn 3 isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth weithredu argymhellion o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| A1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu adnewyddu ei strategaeth ddeng mlynedd erbyn 2023. Dylai geisio defnyddio'r cyfle hwn i adolygu ac ail-lunio ei brosesau, ei strwythurau, ei adnoddau, a'i drefniadau ehangach, er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gyson ag amcanion strategol diwygiedig y sefydliad a'r risgiau cysylltiedig, gan ganolbwyntio'n benodol ar (**Asesiad Strwythuredig 2022**):<br>• Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd<br>• Fframwaith Rheoli Perfformiad<br>• Strwythurau pwyllgor, cylch gorchwyl, a chynlluniau gwaith<br>• Cynllun ariannol tymor hir | Ar y gweill – gweler paragraffau:<br>• Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd – gweler **paragraff 67**.<br>• Fframwaith Rheoli Perfformiad – gweler **paragraff 72**.<br>• Strwythurau pwyllgor, cylch gorchwyl, a chynlluniau gwaith – gweler **paragraffau 49, 50 a 2023 A4**.<br>• Cynllun ariannol tymor hir – gweler **paragraff 93**. |

| Argymhelliad | Disgrifiad o’r cynnydd |
| --- | --- |
| A2 Mae’r Adroddiad Perfformiad Integredig yn rhoi trosolwg da o berfformiad y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae manylion y camau sy’n cael eu cymryd i gynnal neu wella perfformiad sydd islaw’r targed yn ymddangos mewn rhai adrannau o’r adroddiad ond nid mewn eraill. Felly, dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei darparu’n gyson drwy gydol yr adroddiad er mwyn cryfhau’r sicrwydd a roddir i’r Bwrdd bod camau priodol yn cael eu cymryd i gynnal neu wella perfformiad (**Asesiad Strwythuredig 2022**). | Ar y gweill – gweler **paragraff 72** |
| A3 Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar waith ar gyfer cynnal busnes y Bwrdd a’r pwyllgorau yn effeithiol ac yn dryloyw, mae cyfleoedd ar gael i wella’r trefniadau hyn ymhellach. Felly, dylai’r Bwrdd Iechyd, (**Asesiad Strwythuredig 2022**):<br>a) postio negeseuon mwy mynych yn atgoffa am gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar y cyfryngau cymdeithasol a darparu dolenni i bapurau;<br>b) sicrhau bod y papurau ar gyfer holl gyfarfodydd y Grŵp Cynghori yn cael eu cyhoeddi ar ei wefan mewn modd amserol; | a) Heb ei gwblhau – gweler **paragraff 40**<br>b) Ar y gweill – gweler **paragraff 39**<br>c) Heb ei gwblhau – gweler **paragraff 40**<br>d) Cwblhawyd – gweler **paragraff 50**<br>e) Cwblhawyd – gweler **paragraff 52**<br>f) Cwblhawyd – gweler **paragraff 40** |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| c) trefnu bod fersiynau cryno o gofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar gael i'r cyhoedd cyn gynted â phosibl ar ôl pob cyfarfod;<br>d) sicrhau bod y dyddiadau y cafodd Cylchoedd Gorchwyl eu hadolygu a'u cymeradwyo ddiwethaf yn cael eu harddangos yn glir ar y dogfennau;<br>e) cylchredeg cyflwyniadau cyn cyfarfodydd neu, lle nad yw hyn yn bosibl, sicrhau bod copïau ar gael i aelodau a'r cyhoedd (drwy'r wefan) cyn gynted â phosibl wedi hynny;<br>f) sicrhau bod papurau cyhoeddus yn cynnwys esboniad pam fod rhai materion yn cael eu trafod yn breifat yn hytrach nag yn gyhoeddus. | |
| A2 Mae dull y Bwrdd Iechyd o gynllunio yn parhau i fod yn gadarn. Fodd bynnag, mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawni'r cynllun yn llai cadarn. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawniad cyffredinol ei Gynllun Blynyddol a Chynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol drwy (**Asesiad Strwythuredig 2021**): | a) Cwblhawyd – gweler **paragraff 31**<br>b) Cwblhawyd – gweler **paragraff 32** |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| a) sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cynnwys crynodebau clir o gamau allweddol/pethau i'w cyflawni, amserlenni, a mesurau, i gefnogi gwaith monitro ac adrodd effeithiol;<br>b) darparu mwy o wybodaeth i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni ar gynnydd yn erbyn cyflawni'r cynlluniau hyn er mwyn galluogi gwaith craffu a sicrwydd llawn. | |

# Atodiad 3

## Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 4: Ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion archwilio**

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb sefydliadol**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | **Amcanion Llesiant**<br>Er bod amcanion llesiant newydd y Bwrdd Iechyd wedi'u tanategu gan flaenoriaethau clir, nid ydynt yn cwmpasu pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy. At hynny, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cysoni ei amcanion â'r nodau llesiant cenedlaethol nac ag amcanion llesiant sefydliadau partner. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd: | Dechreuodd Grŵp Llywio Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant y gwaith hwn ochr yn ochr ag adnewyddu'r strategaeth a chaiff ei drafod yn y Bwrdd wrth iddo fynd rhagddo. | Mae Trafodaeth y Bwrdd yn debygol o ddigwydd ym mis Ebrill 2024 ac ymateb/diweddariad cyffredinol i'r Pwyllgor Archwilio ar 2 Gorffennaf. | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb sefydliadol**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| | a) ystyried ymgorffori blaenoriaethau ychwanegol sy'n cwmpasu pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r amgylchedd;<br>b) nodi sut mae pob amcan llesiant unigol yn cyd-fynd â'r amcanion llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant ei bartneriaid. | | | |
| A2 | **Mynediad at gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd**<br>Er mwyn gwella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd, dylai'r Bwrdd Iechyd wella mynediad y cyhoedd i gyfarfodydd y Bwrdd drwy: | Cynhaliwyd prawf cychwynnol o ffrydio byw ym mis Medi 2023, a bydd Bwrdd Ionawr 2024 hefyd yn cael ei ffrydio'n fyw. Gan dybio y bydd yn llwyddiannus, y bwriad yw y bydd holl gyfarfodydd cyhoeddus dilynol y Bwrdd yn cael eu ffrydio'n fyw. | Bydd cyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2024 yn cael ei ffrydio'n fyw. Rhoddir diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio ar 2 Gorffennaf. | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb sefydliadol**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| | • ffrydio cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn fyw a'i recordio;<br>• sicrhau bod y recordiadau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd yn fuan ar ôl pob cyfarfod. | | | |
| A3 | **Mynediad cyhoeddus i ddogfennau llywodraethu**<br>Canfuwyd nifer o ddogfennau llywodraethu sydd wedi dyddio neu rai nad oeddent ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd, er enghraifft, Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei wefan, gan sicrhau bod y fersiynau diweddaraf o ddogfennau a phapurau llywodraethu ar gael. | Lansiwyd gwefan SharePoint Llywodraethu Corfforaethol ar-lein newydd a fydd yn cynnwys llawer o ddogfennaeth ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac yn cysylltu â'r wefan allanol ar gyfer elfennau eraill. Fel rhan o'r gwaith parhaus hwn bydd hyn yn cynnwys archwiliad o ddogfennau. | Bydd hyn yn rhan o gynllun gwaith 2024 gyda diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio ar 2 Gorffennaf. | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb sefydliadol**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| A4 | **Adolygu effeithiolrwydd ei strwythur pwyllgorau newydd**<br>Fel rhan o'i adolygiad o effeithiolrwydd Bwrdd a phwyllgorau 2023-24, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu effeithiolrwydd ei strwythur pwyllgorau newydd. Dylai'r adolygiad roi sylw arbennig i'r canlynol:<br>• a yw'r strwythur pwyllgorau yn cefnogi trefniadau goruchwylio digonol o'r amcanion strategol diwygiedig;<br>• a yw cylch gorchwyl a chynlluniau gwaith pwyllgorau'n ymdrin yn ddigonol â phob agwedd ar fusnes y Bwrdd; | Yn unol â 10.2 o'r Rheolau Sefydlog, mae adolygiadau effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau erbyn hyn wedi'u hymgorffori fel nodwedd gyson o'r cyfarfodydd eu hunain ac fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd 1-1 wythnosol y Cadeirydd/DCG. Yn hytrach na chynnal adolygiad eang, blynyddol, y disgwyliad yw y bydd yn bodoli fel egwyddor dylunio sefydlog. Bydd adroddiadau blynyddol gan bwyllgorau yn rhan o'r broses hon.<br>Mae ymgorffori eitem sefydlog ar yr agenda mewn sesiynau Datblygu'r Bwrdd i drafod y strategaeth yn golygu y gellir ystyried strwythur pwyllgorau ochr yn ochr â'r strategaeth a ffactorau cysylltiedig eraill megis cynllunio blynyddol, y BAF ac ati. | Ar y gweill. | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | • a oes rhinwedd mewn cynnal cyfarfod rheolaidd ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau;<br>• a oes hyfforddiant a datblygiad priodol ar gyfer cadeiryddion newydd pwyllgorau ac aelodau newydd o bwyllgorau;<br>• a oes gan swyddogion ac Aelodau'r gallu a'r adnoddau i gefnogi cyfarfodydd pwyllgorau'n amlach. | Mae elfennau ehangach megis cyfarfodydd Cadeiryddion, hyfforddiant, sefydlu ac ati i gyd wedi'u cynnwys yn y cyfarfodydd 1-1 uchod, Grŵp Rheoli Gwasanaethau Arbenigol, Grŵp Llywodraethu Cadeiryddion ac ati. | | |
| A5 | **Clywed straeon gan gleifion**<br>Ar hyn o bryd, nid yw'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn derbyn straeon gan gleifion ar hyn o bryd. Dylai'r pwyllgor ddechrau pob | Clywir straeon gan gleifion yn y Bwrdd bob yn ddeufis.<br>Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad wedi'i adolygu a'i ddiwygio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran | Bydd hyn yn rhan o gynllun gwaith 2024 gyda diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio ar 2 Gorffennaf. | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a'r |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb sefydliadol**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | cyfarfod arall gyda stori gan glaf i osod y naws ar gyfer gweddill y cyfarfod yn ddefnyddiol, ac er mwyn sicrhau bod aelodau'n clywed am brofiadau cleifion a gwersi cysylltiedig. | cynnwys, amlder a gweinyddiaeth, ac felly mae patrwm adolygu ar waith. Rhagwelir y bydd ymgorffori straeon gan gleifion yn ôl yn yr agendâu hynny fel yr argymhellir yn dechrau cyn cyfarfod Archwilio Gorffennaf 2024. | | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| A6 | **Gwella adroddiadau perfformiad**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei Adroddiad Perfformiad Integredig (API). Er ein bod yn cydnabod ei fod yn adroddiad newydd sy'n datblygu, rydym wedi gweld potensial i'w wella drwy:<br>• atgyfnerthu ei gysylltiadau ag Adroddiad Cyflawni'r Cynllun Blynyddol er mwyn sicrhau bod y berthynas rhwng rhai o'r cerrig | Mae'r Hawliau Eiddo Deallusol (IPR) yn cael eu hadolygu'n gyson ac mae ganddo slot sefydlog ar sesiynau Bwrdd a Datblygu Bwrdd cyhoeddus o awr o leiaf, sy'n caniatáu i Aelodau'r Bwrdd gwestiynu a chraffu ar y wybodaeth sydd hefyd yn arwain at ddod ag 'archwiliadau dwfn' yn ôl i'r Bwrdd neu'r Pwyllgor priodol.<br>Bydd y sylwadau a'r argymhellion yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad parhaus | Bydd adolygiad o argymhellion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a chamau gweithredu/newidiadau yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio ar 2 Gorffennaf. | Prif Swyddog Gweithredu |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | milltir cyflawni a'r dangosyddion perfformiad allweddol yn gliriach;<br>• canolbwyntio'n fwy cyson ar y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â thanberfformiad yn yr API a'i adroddiad eglurhaol;<br>• bod yn gliriach ynghylch a yw'r metrigau yn adran dau o'r API yn cyrraedd y targed ai peidio;<br>• bod yn gyson wrth roi rhesymau pam nad yw siartiau data ar gael yn adran dau o'r API, yn hytrach na gadael yr adran yn wag;<br>• darparu data meincnodi (lle mae ar gael) i ddangos sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cymharu â chyrff iechyd eraill. | o'r IPR wrth iddo ddatblygu o ran cyflwyniad a defnydd. Mewn perthynas â'r argymhellion penodol:<br>• bydd cysylltiadau â'r cynllun blynyddol, cerrig milltir a dangosyddion perfformiad yn cael eu hadolygu a rhoddir ystyriaeth i sut y gallai newidiadau i fformat wella eglurder.<br>• cynhelir adolygiad o'r modd y caiff camau gweithredu eu monitro gan roi ystyriaeth arbennig i'r gydberthynas/integreiddiad â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF). Mae'r BAF yn cynnwys risgiau a chamau gweithredu cysylltiedig ar gyfer llawer o'r meysydd perfformiad.<br>• bydd gwaith yn parhau i sicrhau bod gan bob adran berthnasol o'r | | |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb sefydliadol**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| | | IPR dablau data a bod perfformiad yn erbyn safonau yn glir.<br>• bydd y dull sefydliadol o adrodd ar berfformiad wedi'i feincnodi yn cael ei ystyried. Rhoddir ystyriaeth i'w integreiddio o fewn yr IPR neu ddatblygu dull cydategol. | | |
| A7 | **Gwella'r dull o olrhain argymhellion**<br>Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau olrhain argymhellion da ond mae cyfleoedd i'w gwella ymhellach i gefnogi dysgu a gwelliant. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) cyfeirio argymhellion a/neu adroddiadau archwilio ac adolygu yn ffurfiol i bwyllgorau perthnasol | Bydd adolygiad o'r prosesau hyn hefyd yn cael ei gynnwys yn y cynllun gwaith Llywodraethu Corfforaethol.<br>Gwnaed gwaith i ddeall sut y gellid defnyddio meddalwedd AMAT yn well ar gyfer olrhain polisïau, olrhain argymhellion, a rheoli risg, gydag olrhain polisïau yn brif ffocws i ddechrau, yn dilyn argymhelliad archwilio mewnol. Mae gwaith wedi dechrau gydag AMAT i ddatblygu | Cyflwynir diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio ar 2 Gorffennaf. | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | ar gyfer craffu manylach, gyda'r pwyllgorau'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd am sicrwydd, a<br>b) datblygu adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd sy'n dwyn ynghyd themâu, materion cyffredin a'r hyn a ddysgwyd o'r adroddiadau cydymffurfio mewnol, allanol, a rheoleiddiol. | modiwl risg, gyda Chaerdydd a'r Fro yn sefydliad arweiniol y GIG ar y mater hwn. | | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.